University of South Wales
Prifysgol De Cymru

# GWEITHDREFN ASESU RISG 2026-27

## Pwrpas Panel Asesu Risg

1. Gellir galw Panel Asesu Risg ynghyd pan fydd y Brifysgol yn cael ei hysbysu, neu'n dod i wybod bod:

- myfyriwr/prentis wedi datgelu ei fod, yn ystod ei astudiaethau, wedi derbyn rhybudd, cyhuddiad neu euogfarn droseddol;
- myfyriwr/prentis yn destun ymchwiliad gan yr awdurdodau perthnasol oherwydd bod amheuaeth ei fod wedi cyflawni trosedd ddifrifol;
- ymchwiliad i drosedd ddifrifol honedig ar fin cychwyn;
- pryder wedi'i godi yn ystod ymchwiliad i gamymddygiad honedig fod y myfyriwr/prentis yn berygl iddo'i hun neu i bobl eraill;
- myfyriwr/prentis wedi methu, ar adeg derbyn, â datgelu collfarn 'heb ddarfod' berthnasol sydd â chosbau cysylltiedig a allai gael effaith yn ystod ei gyfnod astudio, yn enwedig lle gallai fod yn ofynnol i'r Brifysgol adlewyrchu unrhyw gyfyngiadau ac amodau sydd yn eu lle;
- unrhyw amgylchiad arall lle gallai gweithredoedd myfyriwr/prentis beryglu lles cymuned y Brifysgol neu niweidio enw da'r sefydliad yn fawr.

2. Mae'n ofynnol i'r Panel Asesu Risg wneud argymhellion ar gyfer camau gweithredu rhagofalus lle bo angen ac yn briodol, yng nghyd-destun diogelu'r[1] Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb eu hunain, y Parti sy'n Adrodd, aelodau eraill o gymuned y Brifysgol a/neu enw da'r Brifysgol.

3. Rôl y Panel Asesu Risg yw asesu'r risg ar sail yr honiad a adroddwyd i'r Brifysgol. Wrth gynnal yr asesiad risg, nid rôl y Panel yw ymchwilio na phenderfynu a yw'r digwyddiad honedig wedi digwydd fel yr adroddwyd, er y gall ailgynnull wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg. Mae gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer ymdrin â chamymddwyn sydd hefyd yn drosedd i'w gweld yn y Weithdrefn Camymddygiad Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer.

4. Bydd y Panel Asesu Risg yn penderfynu a ddylid cyflwyno adroddiad digwyddiad i'r heddlu yn groes i ddymuniad y Parti sy'n Adrodd, a'r Cadeirydd fydd â'r awdurdod cyffredinol i wneud y penderfyniad. Rhaid i Gwnsler Cyffredinol ac Arweinydd Diogelu'r Brifysgol fod yn rhan o'r Panel pan fydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud. Bydd y Panel Asesu Risg yn penderfynu pwy fydd yr unigolyn penodedig i roi gwybod i'r heddlu a bydd y rhesymeg dros hyn yn cael ei nodi.

[1] Defnyddir y term diogelu yma i gyfeirio at ddiogelu iechyd, lles a hawliau unigolion.

5. Efallai y bydd amgylchiadau pan na fydd y Parti sy’n Adrodd am i’r Myfyriwr sy’n Ymateb gael ei hysbysu o unrhyw ystyriaethau o dan y Weithdrefn hon, gan nad yw’n fodlon bod yn rhan o ymchwiliad heddlu neu ymchwiliad mewnol. Lle bo hyn yn wir, gall y Panel Asesu Risg gytuno i beidio â chymryd unrhyw gamau ffurfiol; bydd cofnod o'r penderfyniad a wnaed a'r rhesymeg drosto yn cael eu cadw ar ffeil.

6. Rhaid i'r Panel Asesu Risg nodi pa ddigwyddiadau sydd i'w hadrodd i gyrff allanol (er enghraifft Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr) a'r person cyfrifol, yn ôl y gofyn, ac yn unol â'u canllawiau.

**Cyfansoddiad Panel Asesu Risg**

7. Bydd y Panel Asesu Risg yn cynnwys y canlynol.

- Ysgrifennydd y Brifysgol neu enwebai (Cadeirydd)
- Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Myfyrwyr
- Pennaeth Gwasanaethau’r Gaplaniaeth
- Cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr
- Partner(iaid) Cyfathrebu a’r Cyfryngau
- Pennaeth Gwasanaethau Busnes Ystadau
- Rheolwr Cyfleusterau
- Deon Cyfadran y myfyriwr/myfyrwyr
- Pennaeth Pwnc y myfyriwr/myfyrwyr
- Cynrychiolydd o Adnoddau Dynol (os yw’n berthnasol)
- Cwnsler Cyffredinol y Brifysgol
- Pennaeth Cydymffurfiaeth a Mewnfudo (os yw’n berthnasol)
- Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr neu enwebai (Ysgrifennydd)

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau pa staff y mae’n ofynnol iddynt fynychu, yn dibynnu ar natur yr achos. Gall y Cadeirydd ofyn am aelod staff sydd ag arbenigedd penodol i fynychu cyfarfod, os ystyrir bod hynny’n angenrheidiol.

Lle nad yw aelod Panel yn gallu mynychu, gallent anfon enwebai.

Bydd pwynt cyswllt yn cael ei neilltuo i'r Myfyrwyr sy'n Adrodd ac yn Ymateb pan fydd y Panel Asesu Risg yn penderfynu bod angen cymryd camau rhagofalus. Byddant yn bwynt cyswllt i arwain y myfyriwr drwy'r Weithdrefn a byddant fel arfer yn danfon unrhyw ohebiaeth. Neilltuir Swyddogion Cyswllt gwahanol i fyfyrwyr Adrodd ac Ymateb.

**Swyddogaeth Panel Asesu Risg**

8. Swyddogaeth y Panel Asesu Risg yw:

- gwerthuso’r amgylchiadau fel y cawsant eu cyflwyno;
- nodi a mesur risgiau;
- cynghori Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) ynghylch pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd i ddileu neu leihau’r risgiau.

**Proses ar gyfer asesu Risg ac Ystyried Camau Rhagofalus**

9. Wrth asesu risg a phenderfynu pa gamau rhagofalus y dylid eu cymryd, rhaid ystyried y canlynol:

- y math o ddigwyddiad;
- amgylchiadau’r digwyddiad;
- amgylchiadau’r unigolion dan sylw;
- barn yr heddlu/erlynydd/gwasanaeth prawf.

10. Bydd y Panel Asesu Risg yn ystyried effaith neu effaith bosibl ar y Parti sy’n Adrodd/Myfyriwr/Prentis sy’n Ymateb o ganlyniad i unrhyw fesurau a gymerwyd a'r trefniadau cymorth y mae angen eu rhoi ar waith (er enghraifft, cymorth bugeiliol un i un, sesiynau cwnsela. cyngor mewnfudo a/neu addasiadau academaidd). Bydd y Panel Asesu Risg hefyd yn ystyried unrhyw fesurau y mae angen eu rhoi ar waith i amddiffyn yr ymchwiliad.

11. Bydd gan y Myfyriwr/Prentis sy’n Ymateb yr hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn dilyn y cyfarfod cychwynnol gyda’r Panel Asesu Risg.

12. Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Myfyriwr/Prentis sy’n Ymateb o fewn dau ddiwrnod gwaith i roi gwybod iddo am ganlyniad y cyfarfod.

13. Rhaid i gamau rhagofalus fod yn rhesymol a chymesur ac nid cosb yw camau o’r fath, ond gweithred ddiduedd i alluogi’r Brifysgol i gymhwyso’i Rheoliadau. Dyma restr anghyflawn o enghreifftiau o gamau rhagofalus posibl y gellir eu cymryd o ran Myfyriwr/Prentis sy’n Ymateb:

- Gwahardd o’i astudiaethau dros dro; dehonglir hyn fel gwaharddiad dros dro o holl gampysau a gwasanaethau’r Brifysgol, gan gynnwys llety preswyl, oni bai bod y Panel yn gwneud eithriadau ac yn eu cyfleu i’r Myfyriwr/Prentis sy’n Ymateb yn ysgrifenedig. Fodd bynnag, gall y Myfyriwr/Prentis sy’n Ymateb gael caniatâd i ddod i’r campws i gael unrhyw gymorth sydd ei angen wrth baratoi ei amddiffyniad, e.e. gan Undeb y Myfyrwyr, Gwasanaethau’r Gaplaniaeth neu’r Gwasanaethau Myfyrwyr, ar yr amod y gwneir apwyntiadau yn ffurfiol ac ymlaen llaw drwy’r adran gwasanaethau proffesiynol perthnasol. Fel arfer, dim ond pan fydd y sgôr risg ar ôl lliniaru yn Uchel neu'n Uchel Iawn y bydd y cam hwn yn cael ei gymryd.
- Gwaharddiad dros dro o'r campws, neu rai rhannau o'r campws (er enghraifft cyfleusterau/gwasanaethau Undeb y Myfyrwyr neu neuaddau preswyl).
- Atal mynediad i gyfleusterau TG y Brifysgol.
- Gosod cyfyngiadau/amodau penodol (er enghraifft, gofyn iddynt symud llety, a/neu ofyn iddynt beidio â chysylltu ag unigolion penodol a/neu ofyn iddynt fynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda staff enwebedig neu asiantaethau allanol).
- Ataliad dros dro o leoliad.

14. Os na chymerir unrhyw gamau disgyblu wedi hynny, bydd y Brifysgol yn sicrhau cyn belled ag y bo modd nad yw'r Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb wedi'i roi dan anfantais oherwydd unrhyw gamau rhagofalus a roddwyd ar waith.

15. Gall Panel Asesu Risg gymryd camau rhagofalus mewn perthynas â myfyrwyr sydd wedi cofrestru ymlaen llaw os ydynt wedi bod yn fyfyriwr yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.

16. Bydd y cyfnod amser ar gyfer adolygu yn cael ei bennu gan y Panel Asesu Risg, gan ystyried amgylchiadau unigol pob achos. Fel arfer gellir rheoli hyn o dan y Broses Llwybr Carlam (gweler paragraffau 21-22 isod).

17. Gall y Brifysgol a/neu'r Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb ofyn am ailgynnull y Panel Asesu Risg i ystyried penderfyniad blaenorol, os bydd newid sylweddol yn amgylchiadau'r achos neu os daw tystiolaeth newydd i'r amlwg; er enghraifft, os yw amodau mechnïaeth wedi newid neu os yw ymchwiliad yr heddlu wedi'i ollwng.

18. Os yw gweithredoedd y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb wedi effeithio ar aelod arall o gymuned y Brifysgol, bydd y Panel Asesu Risg yn eu hysbysu am unrhyw gamau rhagofalus a gymerwyd, pe bai hynny’n cael ei ystyried yn angenrheidiol.

19. Gall y Panel Asesu Risg gynnig Cytundeb Dim Cyswllt rhwng unigolion, i hyrwyddo eu lles ar ôl i'r achos gau. Lle nad oes cytundeb o ddim cyswllt rhwng unigolion, a bod y Brifysgol yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, gellir ailagor yr achos i ganiatáu i Orchymyn Dim Cyswllt gael ei osod.

20. Cynghorir y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb a'r Parti sy'n Adrodd i geisio cefnogaeth a/neu arweiniad gan Wasanaethau Myfyrwyr yn ôl yr angen, a’r tîm Cyngor Ariannol i Fyfyrwyr ynghylch eu hamgylchiadau ariannol a goblygiadau unrhyw gamau rhagofalus, os oes angen.

21. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'i astudiaethau cyn neu yn dilyn ystyriaeth gan Banel Asesu Risg, caiff y risg ei symud i weithdrefnau priodol eraill y Brifysgol i'w rheoli.

**Proses Llwybr Carlam**

22. Gall fod amgylchiadau lle mae proses llwybr carlam yn angenrheidiol neu'n gymesur; er enghraifft, lle mae risgiau uniongyrchol i barti neu aelod o gymuned y Brifysgol y mae angen mynd i'r afael â nhw, neu gall y Cadeirydd wneud asesiad/ailasesiad syml o'r risg heb gynnull Panel llawn.

23. Bydd y Cadeirydd yn ystyried neu'n adolygu'r achos ac unrhyw gamau rhagofalus, gyda chefnogaeth weinyddol gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Gellir hwyluso hyn drwy ohebiaeth.

24. Penderfyniad y Cadeirydd yw a ddylid defnyddio'r Broses Llwybr Carlam.

25. Mewn amgylchiadau lle nad yw'r Cadeirydd ar gael i weithredu'r Broses Llwybr Carlam, gall y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) wneud y penderfyniad i ddefnyddio’r llwybr carlam.

26. Os yw’n angenrheidiol, bydd cyfarfod ffurfiol nesaf y Panel Asesu Risg yn derbyn ac yn adolygu unrhyw benderfyniad a wneir o dan y Broses Llwybr Carlam.

**Cais am Adolygiad**

27. Gall y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb ofyn am adolygiad o ganlyniad penderfyniad cychwynnol y Panel Asesu Risg neu unrhyw benderfyniad mwy difrifol dilynol gan banel a gafodd ei alw ynghyd eto.

Rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen safonol 'Cais am Adolygiad o Ganlyniad y Panel Asesu Risg' a'i chyflwyno i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr ynghyd â thystiolaeth ategol briodol, o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl cael gwybod am y canlyniad.

28. Dim ond ar y seiliau canlynol y gellir cyflwyno cais am adolygiad o benderfyniad Panel Asesu Risg:

a) Mae tystiolaeth o afreoleidd-dra wrth gynnal achos mor arwyddocaol fel ei fod yn peri amheuaeth ynghylch a fyddai'r un penderfyniad wedi'i gyrraedd, pe na baent wedi digwydd.

b) Mae tystiolaeth bod y penderfyniad yn anghymesur i'r amgylchiadau.

29. Lle mae tystiolaeth neu wybodaeth newydd wedi dod i'r amlwg mewn perthynas â'r achos (e.e. os yw amodau mechnïaeth wedi newid, neu os yw ymchwiliad yr heddlu wedi'i ollwng), ni fydd hyn yn sail gymwys i'w ystyried gan Banel Adolygu ond gall y Myfyriwr sy'n Ymateb ei godi i ofyn am ailgynnull y Panel gwreiddiol yn unol ag Adran 17.

30. Bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn adolygu'r cyflwyniad ac yn cynghori'r myfyriwr o fewn pum niwrnod gwaith a yw'r cais am adolygiad yn gymwys i'w ystyried gan Banel Adolygu; hynny yw:

a) Cyflwynir achos dadleuol o dan o leiaf un o'r seiliau a nodir ym mhwynt 27.

b) Cyflwynwyd y cais am adolygiad o fewn pum niwrnod gwaith i hysbysiad o'r penderfyniad sy'n cael ei apelio; neu fe roddir rheswm da dros fod yn hwyr (wedi'i gefnogi gan dystiolaeth yn ôl cais Gwaith Achos Myfyrwyr).

c) Cefnogir y cais am adolygiad yn briodol gan dystiolaeth.

31. Pan nad yw'r cais am adolygiad yn gymwys i'w ystyried, bydd y myfyriwr yn cael llythyr Cwblhau Gweithdrefnau mewn perthynas â'r penderfyniad a apeliwyd yn ei erbyn.

32. Pan fydd y cais am adolygiad yn gymwys i'w ystyried, bydd Panel Adolygu yn ei ystyried o fewn 10 diwrnod gwaith i'r llythyr yn hysbysu'r myfyriwr bod ei adolygiad yn gymwys.

33. Bydd y Panel Adolygu fel a ganlyn:

- Is-Ganghellor (neu enwebai);
- Aelod o’r uwch reolwyr.

Os bydd gwahaniaeth barn rhwng dau aelod y Panel, bydd gan yr Is-Ganghellor (neu enwebai) y bleidlais fwrw.

Bydd yr Ysgrifennydd, nad yw'n aelod o'r Panel Adolygu, yn bresennol drwy gydol y trafodion. Yr Ysgrifennydd fydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai).

Ni fydd aelodau'r Panel Adolygu wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos nac â'r myfyriwr.

34. Gall y Panel Adolygu ofyn am ragor o wybodaeth gan y Parti Adrodd a/neu'r Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb a/neu gan y Panel Asesu Risg a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol ar gamau rhagofalus.

35. Gall y Panel Adolygu, ar ôl ystyried y cais am adolygiad:

- gadarnhau penderfyniad gwreiddiol y Panel Asesu Risg;
- gwrthdroi penderfyniad gwreiddiol y Panel Asesu Risg a rhoi penderfyniad newydd yn ei le.

36. Os bydd yr adolygiad yn arwain at canlyniad yn cael ei newid, bydd y Brifysgol yn sicrhau cyn belled ag y bo modd nad yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb wedi bod dan anfantais oherwydd unrhyw ganlyniad a benderfynwyd yn flaenorol. Os yw'r Myfyriwr sy'n Ymateb yn parhau i fod yn anhapus â'r canlyniad sydd wedi newid, gallent ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

37. Os nad yw'r adolygiad yn arwain at ganlyniad yn cael ei newid, bydd Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn cael ei gyhoeddi'n awtomatig.

**Cydymffurfio**

38. Os bydd y Myfyriwr/Prentis sy'n Ymateb yn methu â chydymffurfio â phenderfyniad y Panel Asesu Risg, bydd yn peri adolygiad gan y Panel Asesu Risg, a all arwain at roi mesurau mwy difrifol ar waith neu atgyfeiriad at Reoliadau Camymddygiad Myfyrwyr ac Addasrwydd i Ymarfer y Brifysgol.

**Achosion sy'n Cynnwys Prentisiaid**

39. Yn achos Prentisiaid, bydd atgyfeiriadau at y Weithdrefn Asesu Risg, a chanlyniadau o ganlyniad i atgyfeiriad o'r fath, yn cael eu hadrodd i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai), a fydd yn hysbysu cyflogwr y Prentis.